Gwasanaeth Cenedlaethol
Rheoli Troseddwyr

# Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

## Dogfen Fframwaith yr Asiantaeth

Mawrth 2015

# Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

## Dogfen Fframwaith yr Asiantaeth

Mawrth 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 2
2. Nodau ac amcanion 4
3. Rolau, cyfrifoldebau a llywodraethu 5
4. Atebolrwydd i'r Senedd 10
5. Cyllid, perfformiad ac adroddiadau 11
6. Staff sy'n gweithio yn Asiantaeth NOMS 16
7. Archwilio a sicrwydd 18
8. Darparu gwasanaethau corfforaethol 20

Atodiad - Cydymffurfio â chanllawiau a chyfarwyddiadau corfforaethol y llywodraeth gyfan 23

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ('Asiantaeth NOMS') yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ('yr Adran'), a grëwyd yn 2008.

1.2 Asiantaeth NOMS sy'n gyfrifol, ar ran Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ('yr Ysgrifennydd Gwladol'), am gomisiynu a darparu gwasanaeth carchardai a gwasanaeth prawf i Gymru a Lloegr yn unol â'r lefelau capasiti y mae'r Adran yn gofyn amdanynt.

1.3 Mae'r Ddogfen Fframwaith hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd, ariannu, staffio a gwaith Asiantaeth NOMS, y cytunwyd arnynt rhwng Yr Ysgrifennydd Gwladol a Phrif Weithredwr NOMS ('y Prif Weithredwr'), ac a gymeradwywyd gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys.

1.4 Mae'r Model Gweithredu Adrannol yn rhoi pwysau cynyddol ar grwpio a rhannu adnoddau gwasanaeth er mwyn bodloni blaenoriaethau cytunedig a chefnogi darpariaeth rheng flaen. Mae'r Ddogfen Fframwaith hon yn adlewyrchu'r model hwnnw a'r ymrwymiad i wella'n barhaus.

1.5 Bydd y Ddogfen Fframwaith hon yn cael ei hadolygu'n ffurfiol bob tair blynedd o dan gytundebau y cytunwyd arnynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Weithredwr, ond gellir ei hadolygu ar unrhyw adeg arall os dymunant wneud hynny.

1.6 Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Weithredwr, a Thrysorlys Ei Mawrhydi (HMT), gytuno ar unrhyw ddiwygiadau i'r Ddogfen Fframwaith hon.

1.7 Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu ddirprwy, a'r Prif Weithredwr, a Gweinidog HMT os yn briodol, gytuno'n ysgrifenedig fesul achos ar unrhyw wyro oddi wrth ddarpariaeth y Ddogfen Fframwaith hon.

1.8 Bydd copïau o'r Ddogfen Fframwaith hon ac unrhyw ddiwygiadau dilynol yn cael eu rhoi yn llyfrgelloedd Dau Dŷ'r Senedd. Bydd copïau ar gael ar wefan yr Adran.

1. Y prif statudau ar gyfer Carchardai a Phrawf yw Deddf Carchardai 1952, Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000, Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, Deddf Rheoli Troseddwyr 2007, a Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014

1.9 Bydd unrhyw gwestiynau mewn perthynas â dehongli’r Ddogfen Fframwaith hon yn cael eu datrys, os yn bosibl, drwy gytundeb rhwng y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Parhaol yr Adran, ac yn achos diffyg cytundeb, byddant yn cael eu cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol am benderfyniad.

# 2. Nodau ac amcanion

2.1 Rôl Asiantaeth NOMS yw comisiynu a darparu gwasanaethau rheoli troseddwyr yn y gymuned ac yn y ddalfa gan sicrhau'r gwerth gorau am arian o adnoddau cyhoeddus. Mae Asiantaeth NOMS yn gweithio i amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu drwy gyflawni cosbau a gorchmynion y llysoedd a gweithio gyda throseddwyr o dan ei goruchwyliaeth er mwyn newid eu bywydau drwy ddiwygio, adsefydlu a gwneud iawn er mwyn helpu i greu cymunedau mwy diogel.

2.2 Bydd Asiantaeth NOMS yn cydweithredu â darparwyr a phartneriaid i gyflawni system gyfiawnder sy'n gwneud cymunedau'n fwy diogel, yn atal pobl rhag dioddef trosedd a lleihau troseddu.

2.3 Wrth gyflawni gwasanaethau rheoli troseddwyr, bydd Asiantaeth NOMS yn:

- comisiynu gwasanaethau;
- rheoli carchardai'r sector cyhoeddus;
- rheoli'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;
- trafod materion datganoledig â Llywodraeth Cymru (yn arbennig iechyd ac addysg) er mwyn sicrhau bod gwasanaethau troseddwyr yn cael eu cyflawni'n effeithiol yng Nghymru;
- rheoli contractau gyda'n darparwyr sector preifat/trydydd sector yn cynnwys carchardai a reolir dan gontract a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol;
- cyflawni gwasanaethau canolog drwy'r holl system.

# 3. Rolau, cyfrifoldebau a llywodraethu

## Cyfrifoldebau Gweinidogol

3.1 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn atebol am fusnes Asiantaeth NOMS yn y Senedd.

## Ysgrifennydd Parhaol

3.2 Yr Ysgrifennydd Parhaol yw Noddwr Adrannol Asiantaeth NOMS.

3.3 Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â pha mor dda y mae Asiantaeth NOMS yn perfformio o ran gwireddu ei hamcanion strategol ac a yw'n cynnig gwerth am arian neu beidio.

3. 4 Mae cyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol yn cynnwys:

- ardystio dangosyddion effaith Asiantaeth NOMS a Chynlluniau Busnes cyn eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol;
- sicrhau bod Asiantaeth NOMS yn cydymffurfio â pholisïau adrannol a bod ganddi'r adnoddau, y dirprwyaethau a'r awdurdod angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei gwaith yn effeithiol a gwella'n barhaus.

3.5 Yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu (PAO) yr Adran. Mae'r PAO yn atebol i'r Senedd am yr arian cyhoeddus a ddirprwywyd i Brif Weithredwr Asiantaeth NOMS. Mae'r PAO hefyd yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â:

- sut mae nodau ac amcanion strategol Asiantaeth NOMS yn cyfrannu at strategaeth a blaenoriaethau ehangach yr Adran; a
- chyllid sy'n ddigonol i alluogi Asiantaeth NOMS i wireddu ei nodau a'i hamcanion yng nghyd-destun blaenoriaethau gwariant cyhoeddus cyffredinol yr Adran.

## Y Prif Weithredwr

3.6 Caiff y Prif Weithredwr ei benodi gan Ysgrifennydd Parhaol yr Adran, gan ddefnyddio prosesau recriwtio arferol y gwasanaeth sifil, ac mae'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy'r Ysgrifennydd Parhaol am berfformiad Asiantaeth NOMS. Cytunir ar gydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr yn unol â chytundebau perfformio a gwobrwyo aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil.

3.7 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am arwain Asiantaeth NOMS ac am ei rheoli o ddydd i ddydd.

3.8 Mae cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr yn cynnwys sicrhau:

- bod Asiantaeth NOMS yn cael ei rheoli'n effeithlon a chost effeithiol;
- bod staff Asiantaeth NOMS yn cael eu harwain yn effeithiol;
- bod strategaeth a chynlluniau busnes Asiantaeth NOMS yn cael eu paratoi;
- bod strwythurau sy'n pennu cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn cael eu datblygu mewn modd fydd yn galluogi i Asiantaeth NOMS gyflawni ei chyfrifoldebau comisiynu a chyflawni ar wahân yn effeithiol;
- cynllunio ariannol cydnerth a dealltwriaeth lawn o gostau gweithgareddau Asiantaeth NOMS;
- bod Asiantaeth NOMS a'r darparwyr y mae'n eu comisiynu yn cydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion deddfwriaethol a llywodraethu corfforaethol perthnasol;
- yr ymatebir, yr ymdrinnir ac y gweithredir yn brydlon ar yr argymhellion a gyfeirir at Asiantaeth NOMS mewn adroddiadau gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder neu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys argymhellion a gyfeirir at Asiantaeth NOMS mewn Llythyrau Rheoli a atodir i'r Adroddiad Cwblhau Archwiliad gan ei harchwilwyr allanol.

3.9 Bydd y Prif Weithredwr yn cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar faterion mewn perthynas â gwasanaethau troseddwyr sy'n oedolion yn cynnwys gweithredu gwasanaethau carchardai a phrawf. Bydd y Prif Weithredwr yn cadw hawl mynediad parhaus i'r Gweinidog perthnasol. Bydd unrhyw faterion brys neu anawsterau fydd yn codi o ran cysylltiadau neu gyfrifoldebau rhwng yr Adran ac Asiantaeth NOMS yn cael eu uwchgyfeirio, fel bo'n berthnasol, ar gyfer trafodaeth rhwng yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Weithredwr.

3.10 Bydd y Prif Weithredwr yn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Ysgrifennydd Parhaol ynglŷn ag ymdrin â materion gweithredol allai arwain at bryder cyhoeddus, Gweinidogol, Seneddol neu gyfryngol sylweddol.

3.11 Caiff y Prif Weithredwr ei ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu'r (AO) Asiantaeth gan Brif Swyddog Cyfrifyddu'r Adran ac mae'n atebol i'r person hwnnw ac i'r Senedd am y cyfrifoldebau hynny.

3.12 Fel AO, mae cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr i'r Senedd yn cynnwys:

- llofnodi'r cyfrifon a sicrhau eu bod yn cael eu paratoi yn unol â'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon
- llofnodi Datganiad o Gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu er mwyn eu cynnwys yn adroddiad a chyfrifon blynyddol Asiantaeth NOMS.

3.13 O dan Ddeddf Carchardai 1952, cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol yw dynodi a therfynu carchardai a bydd hynny'n cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr.

3.14 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am ardystio bod yr ystâd carchardai gweithredol yn addas i'r diben.

## Bwrdd yr Asiantaeth

3.15 Bydd y Prif Weithredwr yn sefydlu ac yn cadeirio Bwrdd yr Asiantaeth. Bydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn cymeradwyo'r cylch gorchwyl a'r aelodaeth, a bydd hefyd yn penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol, gyda chymeradwyaeth y Prif Weithredwr, er mwyn manteisio ar brofiad allanol ac elfen o herio wrth wneud penderfyniadau strategol.

3.16 Bydd Bwrdd yr Asiantaeth yn rhoi cymorth a chyngor i'r Prif Weithredwr o ran cyfeiriad strategol yr Asiantaeth. Cyfrifoldeb y pwyllgor rheoli gweithredol fydd y rheoli o ddydd i ddydd, a bydd Bwrdd yr Asiantaeth yn derbyn adroddiadau fel bo'n briodol.

3.17 Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys:

- diffinio gweledigaeth a strategaeth Asiantaeth NOMS ac alinio gwerthoedd Asiantaeth NOMS â rhai cod y Gwasanaeth Sifil (Uniondeb, Gonestrwydd, Gwrthrychedd a Didueddrwydd);
- cytuno ar Lywodraethu priodol a dulliau rheoli mewnol;
- sicrhau rheolaeth ariannol gadarn a gwerth da am arian;
- rheoli risgiau ariannol a risgiau perfformiad;

- cefnogi'r tîm rheoli gweithredol.

## Perthynas â'r Adran a chyrff eraill

3.18 Mae'r Adran yn datblygu polisïau strategol o dan gyfarwyddyd Gweinidogion. Bydd y rhai sy'n datblygu polisi yn yr Adran yn ymgynghori â'r Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr priodol ynglŷn ag effaith weithredol ac ariannol newidiadau polisi allai effeithio ar weithredu a chyflawni gwasanaethau a reolir yn uniongyrchol gan Asiantaeth NOMS neu a gontractir ganddi. Yn yr un modd, bydd y Prif Weithredwr yn ymgynghori â'r Adran ynglŷn â phenderfyniadau gweithredol sydd â goblygiadau i amcanion strategol ehangach yr Adran neu a allai effeithio ar hyder y cyhoedd yn yr Asiantaeth.

3.19 Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw gweithredu'r polisi strategol a luniwyd gan yr Adran yn y modd mwyaf effeithiol.

3.20 Bydd Asiantaeth NOMS yn gweithio'n gydweithredol ac agored â phob corff, yn cynnwys adrannau eraill y llywodraeth, sydd â diddordeb yn ei gwaith ac y gall Asiantaeth NOMS ymgysylltu â hwy er mwyn cyflawni gwasanaeth effeithlon ac effeithiol sy'n gwarchod y cyhoedd ac yn lleihau aildroseddu.

## Rheoleiddio

3. 21 Bydd Asiantaeth NOMS yn adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cytunedig i'r Bwrdd Adrannol o dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.

3.22 Bydd Asiantaeth NOMS yn cydymffurfio â chanllawiau arferion gorau ac adroddiadau perthnasol Grŵp Effeithlonrwydd a Diwygio Swyddfa'r Cabinet, yn ogystal â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ran ei weithgaredd comisiynu a chystadlu. Gwneir hyn i sicrhau penderfyniadau comisiynu tryloyw, niwtraliaeth gystadleuol rhwng darparwyr o bob sector a defnydd teg o gostau cymharol a meincnodau perfformio.

3.23 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn adroddiadau gan Brif Archwilydd Carchardai Ei Mawrhydi ar ei harchwiliadau annibynnol o sefydliadau carchardai, a gan Brif Archwilydd Prawf Ei Mawrhydi ar ei harchwiliadau annibynnol o reoli troseddwyr. Bydd y Prif Weithredwr yn gweithredu yn unol â'r protocol ar gyfer ymdrin ag adroddiadau'r Prif Archwilwyr.

3.24 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penodi Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) ar gyfer pob sefydliad carchar. Bydd pob IMB yn darparu asesiad annibynnol o driniaeth drugarog a chyfiawn rhai sydd yn y ddalfa ac o ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn adroddiad blynyddol gan bob IMB a bydd y Gweinidog dynodedig yn ymateb i'r cyfryw adroddiadau ar ôl derbyn cyngor gan y Prif Weithredwr.

3.25 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn penodi Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO) er mwyn ystyried cwynion gan garcharorion a throseddwyr sydd naill ai yn y ddalfa neu yn y gymuned pan fo gweithdrefnau mewnol wedi methu. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn adroddiad blynyddol gan y PPO y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ei chyflwyno i'r Senedd. Hefyd, mae gan y PPO gomisiwn sefydlog i archwilio ac adrodd ar unrhyw farwolaeth carcharor neu breswylydd mewn unrhyw Safle Cymeradwy. Bydd y Prif Weithredwr yn ymateb i argymhellion y PPO.

# 4. Atebolrwydd i'r Senedd

## Pwyllgorau Dethol Seneddol

4.1 Efallai y bydd yn ofynnol i'r Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd Parhaol neu eu dirprwyon ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas â'u cyfrifoldebau perthnasol fel Swyddogion Cyfrifyddu.

4.2 Bydd gwahoddiadau a dderbynnir gan bwyllgorau seneddol eraill mewn perthynas ag Asiantaeth NOMS yn cael eu hystyried gan y Prif Weithredwr fydd yn ymgynghori â ac yn cynghori'r Ysgrifennydd Parhaol pan fo hynny'n briodol.

## Comisiynydd Gweinyddu Seneddol

4.3 Mae Asiantaeth NOMS yn ddarostyngedig i'r Comisiynydd Gweinyddu Seneddol (PCA).

4.4 Yr Ysgrifennydd Parhaol yw Prif Swyddog y Weinyddiaeth Cyfiawnder at bwrpas atgyfeiriadau'r PCA, ond fel rheol bydd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am ddelio ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau rheoli troseddwyr i'r Prif Weithredwr.

## Cwestiynau Seneddol a Gohebiaeth Seneddol

4.5 Bydd y Prif Weithredwr yn cynghori Gweinidogion yn ôl y gofyn mewn perthynas â Chwestiynau Seneddol a gohebiaeth Seneddol a gyfeirir at Weinidogion ynglŷn â'r materion hynny sy'n ymwneud â rheoli troseddwyr y mae NOMS yn gyfrifol amdanynt. Gall y Prif Weithredwr a staff Asiantaeth NOMS hefyd ymateb yn uniongyrchol i ohebiaeth a gyfeirir at Asiantaeth NOMS gan Aelod Seneddol neu arglwydd ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chyflawni gwasanaethau rheoli troseddwyr.

# 5. Cyllid, perfformiad ac adroddiadau

## Gofynion yr Adran

5.1 Oni chytunwyd fel arall gan yr Adran ac, os bydd angen, gan Drysorlys EM, bydd Asiantaeth NOMS yn dilyn yr egwyddorion, rheolau, canllawiau a'r cyngor a geir yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

5.2 Yn benodol, bydd Asiantaeth NOMS yn cydymffurfio â'r gofynion a osodir ar yr Adran gan HMT a Rheolaethau Gwario Swyddfa'r Cabinet fel petaent wedi'u cyfeirio'n uniongyrchol ati hi.

## Gweithdrefnau cyllidebu

5.3 Bob blwyddyn, yn sgil trafodaethau'r Adran ar y Cynllun Busnes blynyddol a ddiweddarir, bydd yr Adran yn anfon y canlynol at Asiantaeth NOMS:

- datganiad ffurfiol o'r ddarpariaeth gyllidebol a ddyrannwyd gan yr Adran ac o unrhyw incwm a ragwelir a gymeradwywyd gan yr Adran. Bydd y dyraniad cyllid hwn yn gosod terfynau gwariant net Asiantaeth NOMS o fewn:

a) Terfynau Gwariant Adrannol (DEL) ar Adnoddau (wedi eu rhannu yn ôl gweinyddiaeth a rhaglenni)

b) DEL ar Gyfalaf

c) Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) ar Adnoddau

d) Bydd terfyn hefyd yn cael ei osod ar wariant arian parod

e) Datganiad o unrhyw newidiadau polisi fydd yn effeithio ar Asiantaeth NOMS.

## Dyraniad Cyllid i Asiantaeth NOMS

5. 4 Mae gwariant gros Asiantaeth NOMS yn cael ei ariannu gan:

(i) gyllid dirprwyedig (net o incwm) gan yr Adran:

(ii) incwm a ganiateir gan gomisiynwyr eraill, ac;

(iii) incwm a ganiateir o ffynonellau ar wahân i gomisiynu.

5. 5 Bydd yr Adran yn darparu dyraniad cyllid blynyddol i Asiantaeth NOMS yn unol â chanlyniadau cytunedig a lefelau gwasanaeth. Pan fo'n bosibl bydd yr Adran hefyd yn darparu dyraniadau cyllid dros dro ar gyfer blynyddoedd y dyfodol er mwyn hysbysu blaengynllunio.

5. 6 Bydd yr Ysgrifennydd Parhaol, drwy ymgynghori, yn dod i gytundeb â'r Prif Weithredwr mewn perthynas â'r dyraniad ac unrhyw addasiadau arwyddocaol

yn ystod y flwyddyn i ddyraniad Asiantaeth NOMS. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn i Gyllid Asiantaeth NOMS i'r Bwrdd.

5. 7 Gall y Prif Weithredwr gyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Parhaol er mwyn ceisio cyllid ychwanegol sy'n uwch na'r dyraniad ariannol mewn amgylchiadau eithriadol.

5. 8 Ym mhob cam o'r broses ddyrannu bydd yr Adran a staff Asiantaeth NOMS yn gweithredu'n agored a thryloyw, gan sicrhau bod y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd Parhaol yn cael eu hysbysu'n llawn ynglŷn â holl agweddau'r cynlluniau dyrannu, cyn ac ar ôl y dyraniad gan HMT i'r Adran.

5.9 Bydd Asiantaeth NOMS yn darparu'r cyfryw wybodaeth i'r Adran ynglŷn â'i gweithredoedd, perfformiad, prosiectau unigol neu wariant arall ar gais rhesymol yr Adran.

5.10 Ar gais rhesymol yr Adran, bydd Prif Weithredwr Asiantaeth NOMS a Chyfarwyddwr Cyffredinol Yr Adran, Cyllid, yn cynnal adolygiadau o wariant yn ystod y flwyddyn a'r rhagolygon. Bydd hyn yn cynnwys opsiynau i gytuno ar gyllid ychwanegol sy'n uwch na'r dyraniad ariannol pan fo lefel y galw neu bwysau newydd ar Asiantaeth NOMS yn golygu bod hynny'n ofynnol.

## Rheoli Ariannol

5. 11 Asiantaeth NOMS sy'n gyfrifol am gyfrifyddu ariannol a rheoli a bydd yn darparu gwybodaeth am wariant ac incwm i'r Adran a HMT pryd, ac mewn modd, y gwneir cais rhesymol am hynny.

5. 12 Bydd Asiantaeth NOMS hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda'i phartneriaid cyflawni pan fo hynny'n briodol.

## Dirprwyaethau Ariannol

5.13 Bydd Prif Swyddog Cyfrifyddu (PAO) yr Adran yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am yr holl faterion ariannol mewn perthynas â chyflawni gwasanaethau rheoli troseddwyr sy'n oedolion, a hynny'n ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr.

5. 14 Bydd Asiantaeth NOMS yn gweithredu o fewn y terfynau a gadarnhawyd yn y dirprwyaethau a'r awdurdodau ysgrifenedig ar gyfer gwariant, a bydd hynny'n cael ei adolygu'n flynyddol o leiaf ac yn cael ei nodi mewn llythyr dirprwyo ffurfiol. Mae trothwyon dirprwyo a Therfynau Trafodion Ariannol Asiantaeth NOMS yn cael eu nodi yn y

Llythyr Dyrannu Cyllid cyffredinol a'i atodiadau. Bydd Asiantaeth NOMS yn caffael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Adran cyn mynd heibio, neu amrywio, unrhyw un o'r dirprwyaethau neu'r Terfynau Trafodion Ariannol.

5. 15 Mae'r Prif Weithredwr yn atebol am wariant Asiantaeth NOMS ac am yr incwm a dderbynia. Bydd Asiantaeth NOMS yn cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus mewn perthynas â thaliadau newydd neu ddadleuol neu gynigion sgil-effeithiol.

5.16 Mae gan y Prif Weithredwr, fel AO Asiantaeth NOMS, yr hawl i gymeradwyo pob eitem o wariant, defnyddio derbynebau (yn ddarostyngedig i arweiniad adrannol), dileu colledion a gwneud taliadau arbennig sydd o fewn darpariaeth y Ddogfen Fframwaith hon ac sy'n gyson â chynlluniau strategol a busnes Asiantaeth NOMS. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r dirprwyaethau, rheolaethau a'r prosesau cymeradwyo a nodir gan Adran Trysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet. Dylid cyfeirio'r holl wariant potensial sy'n debygol o wthio'r ffiniau hyn at yr Adran.

5. 17 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau y gall Asiantaeth NOMS gyfrifo ei hasedau.

5. 18 Bydd gan raglenni newid Asiantaeth NOMS drefniadau llywodraethu effeithiol y cytunwyd arnynt gan y Prif Weithredwr a'r Adran, a bydd y gwariant ar y rhaglenni hynny yn cael ei reoli ganddynt.

## Dal arian parod

5.19 Bydd Asiantaeth NOMS yn defnyddio gwasanaethau Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS) ar gyfer yr holl anghenion bancio oni bai nad yw'r gwasanaeth angenrheidiol yn cael ei ddarparu gan GBS.

## Rheolau Cyfrifyddu Cyffredinol

5.20 Mae Asiantaeth NOMS yn ddarostyngedig i'r rheolau a'r polisïau a nodir gan HMT yn Rheoli Arian Cyhoeddus, Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, y Cod Llywodraethu Corfforaethol, y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a chyfarwyddiadau cyfrifyddu eraill a gyhoeddir o dro i dro.

5.21 Bydd Asiantaeth NOMS yn cyflwyno cyfrifon chwarterol prydlon i'r Adran, ac yn cydymffurfio ag amserlen cyfuno cyfrifon diwedd blwyddyn yr Adran.

## Fframwaith Tryloywder

5. 22 Bydd y Prif Weithredwr yn gweithio gyda'r Adran a swyddogion adrannau eraill y llywodraeth er mwyn cytuno ar ddangosyddion mewnbwn ac effaith, cost a data perfformiad ar gyfer Asiantaeth NOMS, a bydd y rhain ar gael er mwyn sicrhau y bodlonir egwyddorion tryloywder.

5. 23 Bydd y Prif Weithredwr yn sefydlu ac yn cynnal systemau rheoli priodol fydd yn sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn atebol am gyflawni canlyniadau gydag adnoddau cytunedig.

## Risg

5.24 Bydd Asiantaeth NOMS yn cynnal proses rheoli risg yn unol â'r canllawiau yn Rheoli Arian Cyhoeddus HMT a Rheoli Risg - Egwyddorion a Chysyniadau. Bydd hefyd yn cydymffurfio â chanllawiau swyddogol eraill a gyhoeddir efallai o dro i dro, ac sy'n gyson â pholisi rheoli risg yr Adran, gan uwchgyfeirio risgiau fel bo'r angen.

5. 25 Bydd Asiantaeth NOMS yn cynnal cynllun wrth gefn a chynllun pharhad busnes cydnerth, a bydd yn adolygu ac yn profi'r rhain yn rheolaidd.

## Cynllun Busnes, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

5. 26 Bydd cynlluniau Asiantaeth NOMS yn cael eu gosod yng nghyd-destun strategaeth gorfforaethol ehangach yr Adran a'r Fframwaith Tryloywder er mwyn cyflawni amcanion a chanlyniadau a osodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd adrodd yn erbyn Cynlluniau Busnes yn gyson â'r adrodd yng ngweddill yr Adran.

5.27 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am ddatblygu cynllun corfforaethol hirdymor Asiantaeth NOMS ac am sicrhau bod gan Asiantaeth NOMS drefniadau cynllunio a pherfformio integredig.

5. 28 Fel rhan o'r cyfeiriad strategol a osodir gan y cynllun hwn, bydd gweithgareddau manwl Asiantaeth NOMS yn cael eu cyhoeddi mewn cynllun busnes blynyddol.

5. 29 Bydd pob cynllun busnes blynyddol yn cael ei gymeradwyo gan yr Ysgrifenned Gwladol ar ôl i'r Ysgrifennydd Parhaol ei ardystio.

5.30 Bydd y Prif Weithredwr yn paratoi'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer Asiantaeth

NOMS, yn unol â’r canllawiau a’r cyfarwyddiadau cyfrifyddu a osodir gan HMT a Swyddfa’r Cabinet, yn unol ag amserlen y cytunwyd arni gyda’r Adran.

5.31 Bydd yr Adroddiad a’r Cyfrifon blynyddol yn cael eu cyflwyno i’r Ysgrifennydd Gwladol ar ôl i’r Ysgrifennydd Parhaol eu hardystio ac ar ôl i Reolwr ac Archwilydd Cyffredinol NAO eu harchwilio. Bydd adroddiad a chyfrifon blynyddol Asiantaeth NOMS hefyd yn cael eu cyfuno â’r Cyfrifon Adrannol.

5. 32 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflwyno’r Adroddiad a’r Cyfrifon Blynyddol i Dŷ’r Cyffredin a Thŷ’r Arglwyddi.

# 6. Staff sy'n gweithio yn Asiantaeth NOMS

6.1 Bydd y Prif Weithredwr wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am bennu telerau ac amodau cyflogaeth a gweithdrefnau fydd yn gymwys i'r gweision sifil sy'n gweithio yn Asiantaeth NOMS (ar wahân i raddau Uwch Weision Sifil (SCS)).

6.2 Bydd yr Ysgrifennydd Parhaol yn rhoi rhyddid i'r Prif Weithredwr benodi i fand cyflog 1 yr SCS ond o fewn uchafswm cytunedig o swyddi band cyflog 1 yr SCS bob blwyddyn. Os bydd angen swyddi ychwanegol fydd yn uwch na'r uchafswm hwn, bydd angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Parhaol.

6.3 Bydd gan y Prif Weithredwr awdurdod dirprwyedig ar gyfer bargeinio cyflog i staff Asiantaeth NOMS hyd at ac yn cynnwys Band Teg a Chynaliadwy 11 NOMS neu Fand Prawf D (yr hyn sy'n cyfateb i'r hen Radd Unedig 6/Band A y Weinyddiaeth Cyfiawnder), gan ddilyn canllawiau a gofynion HMT. Bydd Asiantaeth NOMS yn cyflwyno tystiolaeth i Gorff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai (sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, NOMS/ Gwasanaeth Carchardai EM a'r undebau llafur) fel sy'n gymwys, ac yn gweithredu newidiadau cyflog yn unol ag ymateb y Llywodraeth i argymhellion Corff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai.

6.4 Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod y trefniadau cyflog a graddio yn bodloni anghenion Asiantaeth NOMS, o fewn unrhyw gyfyngiadau a amlinellir gan Swyddfa'r Cabinet a HMT gan ystyried sgil effeithiau ar yr Adran ehangach. Byddir yn ymgynghori â Phwyllgor Cyflogau'r Sector Cyhoeddus pan fo'n briodol.

6.5 Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau y bydd Asiantaeth NOMS yn:

- cynnal cynllun gweithlu ar gyfer gwasanaethau troseddwyr, sy'n cynnwys sicrhau bod yr holl staff ac aelodau yn bodloni lefelau a safonau cymhwysedd priodol;
- cynnal amgylchedd gweithio ble mae amrywiaeth yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi. Bydd hefyd yn cydymffurfio â'r gofynion a roddir arno gan y gyfraith. Bydd polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cefnogi anghenion ac amcanion busnes;

- cyflawni'r holl ofynion iechyd a diogelwch statudol a osodir ar gyflogeion gan ddeddfwriaeth berthnasol a chyrff statudol yn cynnwys gofynion Iechyd a Diogelwch a diogelwch tân.

6.6 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn bodoli ar gyfer ymgynghori â'r Undebau Llafur ar lefel genedlaethol a'r lefel leol briodol a gyda chymdeithasau staff eraill ynglŷn â materion sy'n effeithio ar eu haelodau.

# 7. Archwilio a sicrwydd

## Archwiliad Mewnol

7.1 Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol i Asiantaeth NOMS yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r arferion gorau a osodir gan HMT. O dan Fodel Gweithredu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder bydd hyn yn cael ei weithredu gan yr Adran fel cydwasanaeth drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth ac yn unol â chynllun blynyddol y cytunwyd arno gyda'r Prif Weithredwr a Phwyllgor Archwilio a Risgiau Asiantaeth NOMS. Disgwylir y bydd y gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo'n llawn i Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) o Ebrill 2016 a bydd GIAA yn darparu gwasanaethau archwilio mewnol i Asiantaeth NOMS a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder o'r dyddiad hwnnw.

## Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau

7.2 Bydd Bwrdd Asiantaeth NOMS yn penodi Pwyllgor Archwilio a Risgiau fel is-bwyllgor i'r Bwrdd, yn unol â'r safonau a'r arferion gorau a nodwyd gan HMT, er mwyn cefnogi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu Asiantaeth NOMS a chynghori ynglŷn â llywodraethu corfforaethol a systemau risgiau a rheoli Asiantaeth NOMS.

7.3 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risgiau yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol.

7.4 Bydd Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risgiau Asiantaeth NOMS yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer cyfathrebu â Phwyllgor Archwilio a Risgiau'r Adran yn cael eu cynnal.

## Archwiliad Allanol

7.5 Mae Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol yr NAO yn archwilio ac yn adrodd ar Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Asiantaeth NOMS, gan fynegi barn ar wirionedd, tegwch a chywirdeb y dull o baratoi'r cyfrifon, ar reoleidd-dra incwm a gwariant Asiantaeth NOMS, ac ar gysondeb yr adroddiad blynyddol.

7.6 Mae'r Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol yn anfon copïau o holl lythyrau a gohebiaethau rheolwyr mewn perthynas â'r llythyrau hynny a anfonwyd at Gyfarwyddwr Cyllid a Dadansoddi Asiantaeth NOMS, sy'n cyfeirio sylw Bwrdd Asiantaeth NOMS at faterion o bwys. Bydd Bwrdd Asiantaeth NOMS yn uwchgyfeirio materion o bwysigrwydd penodol i'r Adran.

7.7 Mae gan Reolwr ac Archwiliwr Cyffredinol yr NAO fynediad i lyfrau a chofnodion Asiantaeth NOMS o dan Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983 at ddiben archwilio economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Asiantaeth NOMS wrth ddefnyddio ei hadnoddau a chyflawni ei swyddogaethau.

# 8. Darparu gwasanaethau corfforaethol

8.1 Bydd Asiantaeth NOMS yn gweithio mewn cydweithrediad ag ystod o swyddogaethau corfforaethol yr Adran.

8.2 Mae nifer o swyddogaethau cefnogi yn cael eu darparu fel cydwasanaeth ar draws yr Adran gan adlewyrchu model gweithredu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Bydd ystod y gwasanaethau a ddarperir o dan y model hwn yn cynyddu wrth i ddarpariaeth gwasanaethau symud i ganolfannau arbenigedd fydd yn darparu gwasanaeth o safon uwch a gwerth am arian.

8.3 Bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth yn cefnogi gweithredu'r gwasanaethau hyn, a byddant yn nodi'r disgwyliadau ar y cyd o ran sut fydd y trefniadau yn gweithio er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cyflawni'n effeithiol ac effeithlon. Pan na fodlonir y disgwyliadau, bydd y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr perthnasol yr Adran yn trafod ac yn cytuno ar sut i weithredu.

8. 4 Pan fo newid arwyddocaol yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflawni neu eu darparu, byddir yn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Weithredwr, a bydd y Ddogfen Fframwaith hon yn cael ei diweddaru.

## Ystadau

8. 5 Asiantaeth NOMS fydd yn gyfrifol am ddatblygu gofynion ei Hystadau ac am flaenoriaethu ceisiadau am fuddsoddiad.

8. 6 Bydd yr Adran yn darparu cyfleusterau ar gyfer pencadlys Asiantaeth NOMS fel rhan o'i hystâd gorfforaethol.

8. 7 Bydd yr Adran yn rheoli cyflenwad yr ystâd carchardai a phrawf a bydd yn gyfrifol, mewn cysylltiad ag Asiantaeth NOMS, am ei hadnoddau, ei datblygiad, y gwaith cynnal a chadw ac am fuddsoddi ynddi gan sicrhau ei bod yn addas i'r diben er mwyn cyflawni amcanion busnes Asiantaeth NOMS.

8.8 Asiantaeth NOMS fydd yn gyfrifol am fân waith cyfalaf ar yr ystâd carchardai a gwaith cynnal a chadw arferol o fewn paramedrau'r cyllid a ddarperir gan yr Adran fel rhan o'r dyraniad ariannol cyffredinol. Yr Adran sy'n gyfrifol am waith cyfalaf mawr.

8.9 Bydd Asiantaeth NOMS a'r Adran yn gweithio mewn partneriaeth mewn perthynas â defnyddio'r ystâd carchardai a phrawf a byddant yn cydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a chyflawni

gwasanaethau sy'n bodloni anghenion y system gyfiawnder a'r lefelau galw a ragfynegir.

## Cyfathrebu

8. 10 Bydd yr Adran yn gosod ei strategaeth gyfathrebu ehangach a bydd Asiantaeth NOMS yn ffurfio ei strategaeth gyfathrebu yn unol â hynny.

8. 11 O fewn y strategaeth ehangach hon, bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am gyfathrebiadau a anfonir at staff Asiantaeth NOMS, darparwyr a rhanddeiliaid.

8. 12 Bydd gofynion y cyfryngau a delio â newyddion yn cael ei reoli gan Swyddfa Wasg yr Adran, gyda dirprwyaethau priodol i'r Prif Weithredwr yn unol â chyfrifoldeb datganoledig.

8. 13 Bydd brandio Asiantaeth NOMS yn gyson ac wedi ei integreiddio â chanllawiau'r Adran

## Cyllid

8. 14 Yr Adran sy'n ffurfio polisi a gweithdrefnau cyllid a byddant yn cael eu hymhelaethu gan Asiantaeth NOMS mewn llawlyfrau manwl a dogfennau canllaw sy'n manylu ar fusnes.

8. 15 Adran gyllid Asiantaeth NOMS fydd yn darparu rheolaeth ariannol, cynllunio a rheoli busnes ac ariannol hirdymor ac yn ystod y flwyddyn.

## Adnoddau Dynol

8. 16 Dylai Asiantaeth NOMS weithredu yn unol â fframwaith AD y Gwasanaeth Sifil, gyda gwasanaethau AD arbenigol yn cael eu darparu yn ganolog ar draws y Llywodraeth.

8.17 Bydd swyddogaeth AD yn parhau o fewn Asiantaeth NOMS er mwyn cyflawni gwasanaethau allweddol sy'n benodol ar gyfer busnes, yn cynnwys Strategaeth Cysylltiadau Gweithwyr, adnoddau gweithredol a chynllunio olyniaeth, Datblygu Sefydliadol a rheoli newid, Partneru Busnes AD a hyfforddiant gweithredol.

## Shared Services Connected Limited

8.18 Bydd yr Adran yn derbyn ystod o wasanaethau er mwyn cefnogi'r swyddogaethau Cyllid, Adnoddau Dynol a Chaffael yn sgil contract yr Adran â Shared Services Connected Ltd. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu diffinio yn y contract a fydd yn cael ei reoli gan Swyddogaeth Rheoli Cleientiaid a Chontractau Cydwasanaethau'r Weinyddiaeth

Cyfiawnder. Bydd asiantaeth NOMS yn cael ei chynrychioli ar gyrff llywodraethu'r cydwasanaethau.

## Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyfathrebu a Thechnoleg

8. 20 Mae datblygu meddalwedd digidol, a seilwaith, yn cynnwys cyfrifiaduron bwrdd gwaith a symudol, yn ogystal â chymorth gyda chymwysiadau swyddfa yn cael eu darparu gan yr Adran i Asiantaeth NOMS.

8. 21 Bydd swyddogaeth TGCh yn parhau o fewn Asiantaeth NOMS ar ffurf systemau ddeallus o adnabod cwsmeriaid sy'n rhan o strategaeth a gofynion busnes TGCh NOMS, a darparu gweithgaredd gwasanaeth cwsmeriaid yn fewnol.

8. 22 Wrth ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer TG, bydd Asiantaeth NOMS yn cydweithio'n briodol ag asiantaethau eraill gyda'r amcan o gytuno ar drefniadau o ran rheoli a defnyddio TG ar y cyd.

## Caffael

8. 24 Mae awdurdod caffael yn cael ei gadw ar lefel yr Adran ac mae'r holl bolisïau caffael a'r gweithgareddau cefnogol yn cael eu darparu fel cydwasanaethau.

## Diogelwch a sicrwydd gwybodaeth

8.25 Mae'n ofynnol bod Asiantaeth NOMS yn cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth a safonau Adrannol o ran rheoli diogelwch a risgiau i wybodaeth, ac mae'n adrodd ar gydymffurfio fel bo'r angen.

## Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data

8. 26 Bydd Asiantaeth NOMS yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Deddf Diogelu Data a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, yn cynnwys sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau yn unol â phrosesau Adrannol cytunedig. Bydd asiantaeth NOMS yn ymateb i geisiadau ynglŷn â materion mewn perthynas â gweithredu rheoli troseddwyr. Bydd hyn yn cael ei weithredu gyda chymorth Uned Mynediad i Ddata a Chydymffurfio'r Adran.

## Trethu

8.27 Bydd polisi trethu, cyngor a gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu darparu gan yr Adran.

# Atodiad - Cydymffurfio â chanllawiau a chyfarwyddiadau corfforaethol y llywodraeth gyfan

Bydd Asiantaeth NOMS yn cydymffurfio â'r rheolau a'r cyfarwyddiadau a geir yn y dogfennau canlynol:

Adrannau perthnasol o Lywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog: Cod Arferion Da
https://www.gov.uk/government/publications/corporate-governance-code-for-central-government-departments
'Chanllawiau' a gyhoeddwyd ynghyd â'r Cod

Rheoli Arian Cyhoeddus (MPM).
https://www.gov.uk/government/publications/managing-public-money

Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth,
https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-internal-audit-standards

Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM),
https://www.gov.uk/searchq=government+financial+reporting+manual

Llythyrau Annwyl Swyddog Cyfrifyddu perthnasol

Rheoleidd-dra, Priodoldeb a Gwerth am Arian,
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20070402144837/http://www.hmtreasury.gov.uk/documents/public_spending_reporting/governance_risk/psr_governance_valueformoney.cfm

Memorandwm Swyddog Cyfuno, a llythyrau DCO perthnasol

Deddf Rhyddid Gwybodaeth, canllawiau a chyfarwyddiadau perthnasol (y Weinyddiaeth Cyfiawnder)

Canllawiau a chyfarwyddiadau perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi mewn perthynas â Chyfrifon Llywodraeth Gyfan

Cyfarwyddiadau a chanllawiau perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan Adrannau canolog

Cyfarwyddiadau a chanllawiau penodol a gyhoeddwyd gan yr Adran.

Argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, neu gan awdurdod Seneddol arall sydd wedi'u derbyn gan y Llywodraeth ac sy'n berthnasol i Asiantaeth NOMS.

Bydd Asiantaeth NOMS yn cyfeirio at y dogfennau canlynol fel canllaw cyffredinol:

Rheoli Risgiau: Y Llyfr Oren - Egwyddorion a Chysyniadau:
https://www.gov.uk/government/publications/orange-book

Rheoli'r Risg o Dwyll: Taclo Twyll Mewnol

Egwyddorion Gweinyddu Da yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd -
www.ombudsman.org.uk/improving-public-service/ombudsmansprinciples/principles-of-goodadministration.

Gwasanaeth Cenedlaethol
Rheoli Troseddwyr

Mawrth 2015